

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Optical Express

Dyddiad arolygu: 10 Rhagfyr
2019

Dyddiad cyhoeddi: 11 Mawrth
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	18
4.	Beth nesaf?	21
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	22
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	23
	Atodiad B – Cynllun gwella	24

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Optical Express ar 10 Rhagfyr 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, ac roedd un ohonynt yn arwain yr arolygiad.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Cawsom ein sicrhau bod Optical Express yn darparu gwasanaeth effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas i ddarparu triniaethau laser llygaid.

Roedd y staff yn meddu ar sgiliau priodol a'r wybodaeth berthnasol i ddarparu triniaethau diogel i gleifion.

Roedd trefniadau addas ar waith i warchod preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau.

Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn, gyda'r rhan fwyaf o'r cleifion yn nodi bod y gofal a'r driniaeth a gawsant yn ardderchog neu'n dda iawn.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth gan fod pob parti yn cytuno ar y prosesau y bydd y cleifion yn eu hwynebu cyn dechrau arni
- Roedd systemau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl
- Roedd nodiadau a chofnodion cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel
- Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol, gan gynnwys sut i ddefnyddio'r peiriannau laser yn briodol
- Roedd trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu polisïau a thriniaethau er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i Gymru, gan enwi rheoliadau a safonau Cymru, lle y bo'n berthnasol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Optical Express wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol er mwyn darparu llawdriniaeth llygaid gan ddefnyddio laser yn 24 Plas Winsor, Caerdydd, CF10 3BY.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru am y tro cyntaf ag AGIC ar 21 Mehefin 2018.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys tri chyflogai; ac mae un ohonynt yn weithredwr laser.

Darperir amrywiaeth eang o wasanaethau i bobl rhwng 18 a 70 oed, sy'n cynnwys y canlynol:

- Dosbarth 3b Laser Intralase FS ND:Gwydr ar gyfer triniaeth:
 - creu Fflap Cornbilen
- Dosbarth 4 Laser VISX Star IR ar gyfer triniaeth:
 - Laser Cywiro Golwg.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod y staff yn Optical Express yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd adborth y cleifion yn yr holiaduron AGIC yn nodi bod y gwasanaeth yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn y driniaeth ac ar ei hôl er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Roedd gan y gwasanaeth drefniadau addas ar waith i sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod eu hymgyngoriadau a'u triniaethau.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 16 o holiaduron.

Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn a nododd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u cael yn ardderchog neu'n dda iawn. Roedd sylwadau'r cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Gwasanaeth cwsmeriaid gwych. Staff cyfeillgar, sy'n wybodus ac yn barod eu cymwynas. Ôl-ofal da a chyfleusterau ardderchog. Bisgedi a choffi da!"

"Gwnaeth popeth cyn y llawdriniaeth laser llygaid fy helpu i deimlo fy mod i mewn dwylo diogel iawn"

"Mae'r gwasanaeth rwyf wedi'i gael yn ardderchog. Mae'r staff bob amser yn gymwynasgar a chyfeillgar. Mae'r cyfleusterau'n ardderchog. Maent bob amser yn tawelu fy meddwl".

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Mae'r cleifion yn cwblhau ac yn llofnodi ffurflen hanes meddygol yn ystod eu hymgyngoriad cychwynnol a chaiff hyn ei hadolygu a'i thrafod â'r cleifion gan optometrydd¹. Caiff hanes meddygol ei wirio eto yn ystod y cam paratoi, cyn i'r cleifion gael eu llawdriniaeth.

Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni hanes meddygol wedi'u cwblhau ac wedi'u llofnodi yng nghofnodion y cleifion i gadarnhau'r dull gweithredu hwn. Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur hefyd eu bod bob amser yn cwblhau ffurflen hanes meddygol, neu fod rhywun yn gwirio eu hanes meddygol, cyn iddynt gael unrhyw driniaeth. Mae hyn yn dilyn canllawiau arferion gorau ac yn helpu i sicrhau bod triniaeth yn ddiogel ac yn addas ar gyfer pob claf.

Urddas a pharch

Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno iddynt gael eu trin ag urddas a pharch ac yn teimlo eu bod yn gallu cynnal eu preifatrwydd a'u hurddas eu hunain bob amser yn ystod apwyntiadau.

Dywedodd y staff wrthym y cynhelir ymgynoriadau â chleifion mewn ystafelloedd preifat er mwyn sicrhau y gellir datgelu gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb fod neb yn clywed.

Cadarnhaodd y staff y gall cleifion ddod â rhywun gyda nhw, hebryngwr i'w hymgyngoriad, ond fe'u hatgoffir y bydd cwestiynau am wybodaeth bersonol yn cael eu gofyn yn ystod y cam hwn. Ni chaniateir hebryngwyr yn yr ystafell driniaeth.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymdrechu bob amser i wahanu cleifion sydd wedi cael eu triniaeth oddi wrth gleifion sydd heb gael eu triniaeth gymaint â phosibl er mwyn diogelu eu preifatrwydd a'u hurddas.

¹Mae Optometryddion wedi'u hyfforddi ym maes gofal llygaid a'r system weledol, gan gynnwys prawf golwg, datgelu a diagnosis, ac mewn rhai achosion rheoli clefyd.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Cawsom sicrwydd bod y cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Mae hyn am fod cleifion yn cael ymgynghoriadau wyneb yn wyneb a gwybodaeth ysgrifenedig cyn i unrhyw driniaeth laser gael ei rhoi. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno ei fod wedi cael digon o wybodaeth i'w helpu i ddeall yr opsiynau o ran triniaeth a oedd ar gael iddo a'r risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â phob opsiwn. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym eu bod wedi cael eu hysbysu am gost unrhyw driniaeth bob amser cyn iddynt ddechrau arni.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod angen iddynt lofnodi ffurflen cydsynio er mwyn dangos eu bod yn deall y manteision a'r risgiau cysylltiedig cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Yn ystod yr ymweliad dangosodd y staff i ni'r camau y mae'n rhaid i glaf eu cymryd a chydsynio iddynt cyn y cytunir ar unrhyw driniaeth laser. Yn gyntaf, yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol dangosir fideo cydsyniad cleifion, sy'n disgrifio risgiau a buddiannau'r driniaeth. Mae'r cleifion yn llofnodi ffurflen ddatganiad er mwyn dweud eu bod wedi gweld y fideo.

Yn ail, rhoddir gwybodaeth ysgrifenedig i'r cleifion y maent yn mynd adref gyda nhw i'w darllen. Mae'r wybodaeth yn cwmpasu telerau ac amodau'r driniaeth ac mae angen i'r claf ei llofnodi er mwyn dangos ei fod yn derbyn y telerau ac amodau.

Bydd y claf yn mynd i apwyntiad cydsynio cyn y llawdriniaeth, a gynhelir gan y llawfeddyg. Mae'r llawfeddyg yn llofnodi'r ffurflen berthnasol er mwyn dweud ei fod wedi trafod y wybodaeth â'r claf.

Ar ddiwrnod y llawdriniaeth, mae'r claf a'r llawfeddyg yn llofnodi dogfennaeth gydsynio.

Mae'r staff yn cael cydsyniad gan y cleifion ar wahanol gamau drwy gydol y broses, ond yn egluro y gall claf dynnu ei gydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym hefyd fod y staff wedi gwrandao arnynt yn ystod eu hapwyntiad, a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth, lawn gymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys.

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig ddatganiad o ddiben² manwl i ni a oedd yn cynnwys y wybodaeth hanfodol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Roedd canllaw i gleifion ar gael a oedd yn rhoi gwybodaeth am y gwasanaeth ac yn cynnwys y meysydd hynny sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Cynllunio a darparu gofal

Fel y nodir yn yr adrannau uchod, rhoddir llawer o wybodaeth i'r cleifion y mae angen iddynt gytuno arni cyn i unrhyw driniaeth ddechrau. Caiff y wybodaeth hon ei chasglu a'i defnyddio gan y gwasanaeth er mwyn penderfynu ar y driniaeth fwyaf priodol ar gyfer pob claf.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i atal haint a chynorthwyo'r broses wella ar ôl y driniaeth. Yn ogystal, darperir apwyntiad dilynol wyneb yn wyneb i'r cleifion er mwyn sicrhau ôl-ofal priodol.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion y cleifion a gwelwyd tystiolaeth bod nodiadau'r cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel, sy'n golygu bod diogelwch a llesiant y cleifion yn cael eu hystyried wrth gynllunio a chyflwyno gofal.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae gan Optical Express nifer o loriau mewn adeilad. Mae gris yn y brif fynedfa sy'n arwain at ardal y dderbynfa, fodd bynnag, mae mynediad ochr yn rhoi mynediad i unrhyw un na all ddringo'r gris. Mae lift yn sicrhau mynediad i bob llawr ac roedd bob ardal yn hygyrch i unrhyw un ag anawsterau symudedd a/neu sy'n defnyddio cymhorthyn symudedd.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Mae'r gwasanaeth yn casglu adborth drwy ofyn i gleifion gwblhau holiaduron boddhad cleifion a thrwy adolygiadau Google. Mae hyn yn sicrhau y rhoddir

² Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw datganiad o ddiben, sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

gwybod i gleifion presennol a darpar gleifion am ansawdd y gofal a ddarperir gan y clinig.

Dyweddodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ymwybodol bod eu barn ar y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu yn Optical Express yn cael ei cheisio, er enghraifft, drwy ddefnyddio holiaduron cleifion.

Gwelsom fod dadansoddiad rheolaidd o'r holiaduron a gwblhawyd (gan y gwasanaeth) wedi'i gwblhau. Roedd hyn yn dangos bod y darparwr wedi adolygu'r holl sylwadau ac yn defnyddio'r dadansoddiad fel ffordd o nodi'r meysydd a oedd yn gweithio'n dda, yn ogystal â defnyddio'r data i amlygu ble y gallai fod angen gwneud newidiadau i wella'r gwasanaeth.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn cyrraedd y safonau perthnasol ac yn bodloni'r rheoliadau er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion a oedd yn ymweld â'r clinig. Cefnogwyd hyn gan raglen reolaidd o archwiliadau clinigol ac asesiadau risg, gydag unrhyw welliannau a nodwyd yn cael eu defnyddio i wella'r gwasanaeth.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl. Roedd y peiriannau laser yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr ac roedd y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar sut i ddefnyddio'r peiriannau.

Roedd y gwasanaeth yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel a dibynadwy. Roedd yr ystafell driniaeth yn lân ac yn daclus yr olwg ac roedd y staff yn ymwybodol o'r tasgau glanhau yr oedd angen eu cyflawni bob dydd, bob wythnos a bob mis, er mwyn sicrhau bod safonau atal a rheoli heintiau yn parhau'n uchel.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, nodwyd gennym fod trefniadau addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl a oedd yn ymweld â'r safle. Roedd gwiriad wedi'i gynnal ar y gwifrau trydanol o fewn y pum mlynedd diwethaf ac roedd Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) wedi cael eu cynnal er mwyn helpu i sicrhau bod yr offer trydanol bach yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd trefniadau priodol ar waith i ddiogelu'r staff a'r bobl a oedd yn ymweld â'r clinig yn ddigonol pe bai tân:

- Roedd asesiad risg tân wedi'i gynnal
- Roedd dyfeisiau diffodd tân ar gael ym mhob rhan o'r safle a oedd wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n briodol

- Roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u cofnodi mewn cofnodlyfr
- Roedd arwyddion priodol ar gyfer yr allanfeydd tân.

Roedd cyfarpar brys, gan gynnwys Diffibriliwr Allanol Awtomataidd, ar gael ac roedd gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn gyfredol ac yn effeithiol i'w ddefnyddio.

Dywedodd y staff wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant mewn cymorth cynnal bywyd sylfaenol a/neu frys a disgrifiodd y gweithdrefnau y byddai staff yn eu dilyn pe bai argyfwng, megis claf yn llewygu.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y safle a'r ardaloedd clinigol yn lân ac yn daclus. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad; roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y safle yn lân iawn.

Disgrifiodd y staff y trefniadau ar gyfer rheoli heintiau yn y clinig, a oedd yn cydymffurfio â chanllawiau arferion gorau ac yn gyson â'r gweithdrefnau a amlinellir yn ei bolisiâu rheoli heintiau.

Dywedodd y staff wrthym fod gweithdrefnau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu unrhyw wastraff (clinigol) peryglus yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n briodol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Cadarnhaodd y staff fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'i amodau cofrestru drwy drin cleifion rhwng 18 ac 70 oed yn unig.

Gwelsom fod polisi ar wahân ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion, a oedd yn amlinellu'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn pe bai unrhyw bryderon yn ymwneud â diogelu. Roedd y ffolder polisiâu hefyd yn cynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu plant ac oedolion lleol perthnasol er mwyn sicrhau y rhoddir gwybod am bryderon yn briodol.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Ar y cyfan, nodwyd gennym fod trefniadau addas ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion wrth gael triniaeth gan y peiriant/peiriannau laser yn y gwasanaeth. Dyma'r rhesymau dros hyn:

- Roedd y peiriannau laser wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd a'u calibradu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn gweithio'n gyson ac yn ôl y disgwyl
- Roedd protocol triniaeth ar waith, yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn i sicrhau y caiff triniaeth ei rhoi mewn ffordd ddiogel i gleifion, ac roedd wedi cael ei oruchwylio gan ymarferydd meddygol arbenigol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau
- Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau er mwyn rhoi cymorth arbenigol ar ddiogelwch gosodiad y peiriant laser a'i ddefnydd gweithredol o ddydd i ddydd
- Roedd rheolau lleol cynhwysfawr³ a ddatblygwyd gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ar waith a oedd yn disgrifio sut i ddefnyddio'r peiriant laser yn ddiogel, ac roedd pob aelod o'r staff gan gynnwys y gweithredwr laser wedi eu llofnodi i ddangos eu bod yn ymwybodol ohonynt a'u bod yn cytuno i ddilyn y rheolau hyn.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth bod y gweithredwr laser yn bodloni gofynion yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)⁴ i fod yn ddefnyddiwr cymwys o'r peiriant laser, gan ei fod wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth⁵ a'r hyfforddiant gan wneuthurwr y peiriant laser ar sut i'w ddefnyddio'n ddiogel.

Gwelsom fod sbectolau amddiffyn y llygaid sy'n benodol ar gyfer cryfder y peiriannau laser ar gael, ond yn unol â'r rheolau lleol, nid oedd angen sbectol ar gyfer y triniaethau a gynhelir gan y gwasanaeth. Dywedodd y staff wrthym fod y

³ Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli diogelwch laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf.

⁴ [Lasers, intense light source systems and LEDs – guidance for safe use in medical, surgical, dental and aesthetic practices](#)

⁵ Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio peiriannau laser yn ddiogel

sbectolau, er nad oeddent yn cael eu defnyddio, yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i weld a oeddent wedi'u difrodi.

Nid oedd unrhyw gleifion yn cael triniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad, ond disgrifiodd y staff y rhagofalon a oedd yn cael eu cymryd wrth roi triniaeth; mae arwydd y tu allan i ddrws yr ystafell driniaeth yn rhoi gwybod i'r staff a/neu'r cyhoedd am y risg y bydd laserau yn cael eu defnyddio y tu mewn i'r ystafell driniaeth. Mae arwydd sy'n nodi 'dim mynediad' yn goleuo pan mae'r ystafell yn cael ei defnyddio ar gyfer y triniaethau. Nid yw'r cyhoedd yn cael mynediad i'r ardaloedd clinigol heb fod aelod o'r staff yn mynd gyda nhw, gan fod y drysau'n cael eu cloi â chôd. Yn ogystal, caiff y peiriannau laser eu cadw'n ddiogel bob amser er mwyn atal defnydd anawdurdodedig.

Gwelsom dystiolaeth bod yr LPA wedi cwblhau asesiad risg er mwyn nodi unrhyw beryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio'r peiriannau laser ac amgylchedd yr ystafell driniaeth. Roedd y staff wedi adolygu'r asesiad risg ac roedd y camau gweithredu a nodwyd wedi'u cwblhau.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd gan Optical Express raglen o archwiliadau mewnol ac asesiadau a gynhelir er mwyn iddo allu dangos arfer gorau wrth ddarparu triniaethau cywiro golwg. Caiff archwiliadau a gwblhawyd eu cyflwyno i'r brif swyddfa a chaiff unrhyw welliannau a nodwyd o ganlyniad i'r rhain eu rhannu â rheolwr y feddygfa i'w datblygu a'u rhoi ar waith. Mae'r gwaith rheolaidd o gwblhau archwiliadau ac asesiadau yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a roddir i'r cleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cwblhau adnodd archwilio yn ddiweddar er mwyn ennill achrediad gan The Association for Perioperative Practice (AfPP)⁶. Bydd cyflawni'r gwaith hwn a chael eu hachredu yn rhoi sicrwydd bod y sefydliad yn dangos ei ymrwymiad i gynnal safonau uchel o ofal amdriniaethol.

⁶Mae'r Association for Perioperative Practice yn gorff proffesiynol Prydeinig ar gyfer gweithwyr gofal iechyd. Nododd bod nodau'n cynnwys "the promotion of high standards of perioperative care, the exchange of professional information between members and co-operation with other professional bodies". Mae'n elusen gofrestredig. <https://www.afpp.org.uk/home>

Rheoli cofnodion

Nodwyd gennym fod gwybodaeth am y cleifion yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd cofnodion papur y cleifion yn cael eu cadw mewn cabinet dan glo er mwyn atal mynediad heb awdurdod atynt. Roedd modd cael gafael ar nodiadau electronig drwy fanylion mewngofnodi unigol aelod o'r staff.

Gwelsom dystiolaeth o brosesau cynhwysfawr ar gyfer cadw cofnodion ar waith yn y clinig, gan gynnwys nodiadau cleifion manwl a oedd o ansawdd da, a chofrestr gynhwysfawr o driniaethau cleifion, a oedd yn helpu'r gwasanaeth i ddarparu gofal o ansawdd i gleifion.

Roedd yr holl gofnodion mewn perthynas â'r peiriannau laser ac amgylchedd yr adeilad yn drefnus ac roedd yn hawdd cael gafael arnynt.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol ac yn meddu ar y wybodaeth berthnasol i ddarparu triniaeth ddiogel i gleifion.

Roedd gan y gwasanaeth amrywiaeth eang o bolisiau a gweithdrefnau. Rydym wedi argymhell y dylid eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i safonau a rheoliadau Cymru.

Roedd gweithdrefn cwynion gynhwysfawr ar waith i sicrhau yr ymatebir i unrhyw gwynion yn effeithlon ac yn effeithiol.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Optical Express Ltd sy'n berchen ar Optical Express. Caiff y broses o redeg y practis o ddydd i ddydd ei harwain gan reolwr y feddygfa a gefnogir gan dîm ehangach o staff clinigol ac anghlinigol. Gwelsom fod gan y clinig linellau atebolrwydd clir a dywedodd y staff wrthym eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisiau ar waith a oedd yn hygyrch i'r staff, a bod y polisiau hyn yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. Wrth adolygu rhai polisiau, gwnaethom sylwi eu bod yn cynnwys cyfeiriadau at sefydliadau sy'n gymwys yn Lloegr. Gwnaethom argymhell y dylid eu hadolygu a'u diweddarau fel bod rheoliadau a safonau Cymru yn cael eu hegluro i'r staff.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol er mwyn amddiffyn y clinig rhag ceisiadau am iawndal a chostau cyfreithiol cysylltiedig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac yn berthnasol i Gymru a bod rheoliadau a safonau Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n glir.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan y gwasanaeth weithdrefn cwynion briodol a oedd yn cynnwys manylion cyswllt cywir AGIC yn unol â gofynion rheoliadol. Mae crynodeb o'r weithdrefn gwyno wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben ac yn y canllaw i gleifion. Hefyd, roedd y weithdrefn gwyno yn cael ei harddangos yn ardal y dderbynfa/ardal aros Optical Express.

Mae'r brif swyddfa yn delio â'r cwynion ffurfiol a chânt eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn helpu i nodi unrhyw themâu y gellid eu defnyddio i wella gwasanaethau.

Gwelsom fod systemau addas ar waith i gofnodi a rheoli unrhyw gwynion ffurfiol neu anffurfiol a phryderon y bydd y clinig yn eu derbyn.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd rhaglen hyfforddiant orfodol ar waith ar gyfer y staff a oedd yn sicrhau eu bod yn cynnal eu sgiliau a'u gwybodaeth am nifer o feysydd, gan gynnwys diogelu.

Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, gwelsom dystysgrifau yn dangos bod gweithredwr/gweithredwyr y peiriannau laser wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ynghyd â'r hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriannau laser.

Mae'r brif swyddfa yn darparu gwasanaeth canolog i gefnogi rheolwr y feddygfa, er mwyn sicrhau y caiff holl waith cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a gweithgareddau datblygu sefydliadol eu cyflawni.

Mae'r staff yn mynychu sesiynau briffio tîm bob dydd fel bod pawb yn ymwybodol o ddigwyddiadau'r diwrnod sydd i ddod. Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd staff rhanbarthol. Mae'r rhain i gyd yn cyfrannu at y gwaith o sicrhau bod y staff yn cael y wybodaeth leol a chorfforaethol ddiweddaraf.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Cadarnhaodd y staff fod tîm recriwtio'r brif swyddfa yn gyfrifol am yr holl arferion recriwtio a chyflogaeth. Dywedodd y staff wrthym am y wybodaeth sy'n cael ei chasglu ar gyfer aelodau newydd, sy'n cynnwys geirdaon.

Gwelsom dystiolaeth bod gan bob aelod o'r staff dystysgrif briodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn bodloni Rheoliad 19, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gleifion gael eu diogelu rhag risgiau gofal neu driniaeth amhriodol neu anniogel. Dywedodd y staff wrthym y byddai tystysgrifau DBS yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd, ac rydym yn cydnabod bod hyn yn arfer dda.

Mae pob aelod newydd yn cael ei sefydlu a gwelsom dystiolaeth bod taflenni gwirio sefydlu wedi'u cwblhau. Caiff y staff eu sefydlu mewn ardaloedd gwahanol a chynigir cyfleoedd cysgodi iddynt cyn i'r staff gael eu cymeradwyo i weithio yn yr ardal honno.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Optical Express

Dyddiad arolygu: 10 Rhagfyr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn				
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn				
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac yn berthnasol i Gymru a bod	Rheoliad 19 (1) (a)	Adolygu polisïau er mwyn sicrhau bod geirdaon a gweithdrefnau'n adlewyrchu rheoliadau Cymru. Effeithiwyd ar un	Mary Spellman	31/01/2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
rheoliadau a safonau Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n glir.		polisi.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Mary Spellman

Teitl swydd:

Dyddiad: 23/01/2020